Sgiliau i Weithwyr Proffesiynol sy'n Dysgu

Dysgu Gydol Oes yn y DU
Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Ymateb i *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*
Strategaeth sgiliau a chyflogaeth.

10 Ebrill 2008

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Michelle Creed
Cyfarwyddwr, Cymru
Dysgu Gydol Oes yn y DU
Swyddfa: 0870 7564974
Symudol: 07921 291339
E-bost: Michellecreed@lifelonglearninguk.org

skills FOR BUSINESS

Dysgu Gydol Oes yn y DU

Dysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK) yw'r Cyngor Sgiliau Sector annibynnol a arweinir gan gyflogwyr sy'n cynrychioli'r Sector Dysgu Gydol Oes.

Ein prif nodau yw:

- lleihau bylchau a phrinderau sgiliau
- gwella cynhyrchedd, perfformiad busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus
- cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchedd pawb yng ngweithlu'r sector
- gwella'r cyflenwad dysgu

Mae LLUK yn darparu'r safbwynt strategol ar gyfer cynllunio a datblygu'r gweithlu i'r sector ar draws pedair gwlad y DU.

Rydym yn cynnwys y cyflogwyr hynny y mae eu busnes pennaf yn ymdrin â chyflwyno neu gefnogi dysgu i oedolion a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- addysg bellach;
- addysg uwch;
- dysgu seiliedig ar waith a darparwyr hyfforddiant preifat;
- llyfrgelloedd, archifdai a gwasanaethau gwybodaeth;
- dysgu a datblygu cymunedol – sy'n cynnwys ymhellach:
    - datblygiad cymunedol
    - gweithio gyda rhieni
    - gwaith ieuenctid
    - addysg ddatblygu
    - dysgu oedolion yn y gymuned
    - dysgu teuluol
    - addysg gymunedol

Ni yw'r corff sy'n rhychwantu'r DU sy'n gyfrifol am ddiffinio a datblygu safonau galwedigaethol y Sector Dysgu Gydol Oes a Strategaeth Gymwysterau'r Sector. Defnyddir y safonau hyn i lywio recriwtio a datblygiad proffesiynol staff ein cyflogwyr.

Ymateb i Cyflawni Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru; A sgiliau and cyflogaeth strategaeth:

Mae LLUK yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid y Sector Dysgu Gydol Oes yng Nghymru ac yn eu cefnogi. Yn ogystal â'r sylwadau rydym yn eu gwneud isod, hoffem hefyd gadarnhau a chefnogi ymatebion etholaethau penodol a wnaed gan:

- Gymdeithas y Prif Lyfrgellwyr
- FFORWM
- Addysg Uwch Cymru
- NIACE Dysgu Cymru
- Ffederasiwn Hyfforddi Cenedlaethol Cymru
- Cyngor Cymru dros Wasanaeth Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) a Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid
- Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes (SfBN)

Mae ymateb LLUK yn canolbwyntio ar yr heriau Datblygu'r Gweithlu a fydd yn wynebu cyflogwyr yn y Sector Dysgu Gydol Oes fel asiantau cyflwyno cynigion y Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau.

C1. ydych chi'n croesawu'r cyfeiriad polisi cyffredinol a nodir yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru?*

- Mae LLUK yn croesawu'r symudiad i ymgynghori â'r sector ar gydrannau a chyfeiriad ***Strategaeth*** *Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth* o flaen unrhyw waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth. Rydym yn dehongli hyn fel arwydd o newid yn rôl adran newydd AADGOS.

- Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Strategaeth yn **'seiliedig ar Ganlyniadau'**. Er hynny mae bwlch amlwg rhwng Strategaeth a chyflwyno canlyniadau gweithredol. Bydd y cyfrifoldeb dros gyflwyno'r canlyniadau gweithredol yn nwylo cyfres o randdeiliaid gwahanol, y tu allan i AADGOS. Dylai dogfen derfynol y Strategaeth awgrymu sut caiff y **Cynllun Gweithredu** canlynol ei ddatblygu mewn **partneriaeth a chydweithrediad** â'r holl randdeiliaid.

- Mae LLUK yn croesawu'r weledigaeth o economi gryf a mentrus sy'n seiliedig ar swyddi ansawdd uchel, sgiliau uchel. Fel corff a arweinir gan gyflogwyr ac yn CSS rydym yn croesawu'r proffil sy'n cael ei roi i lais cyflogwyr (ym mhob sector) a **sefydliad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru**. Rydym hefyd yn croesawu'n gynnes benodiad Syr Adrian Webb fel Cadeirydd y Bwrdd.

- Rydym yn croesawu'r **bartneriaeth gyson** rhwng AADGOS a DE&T y cafodd yr hen Gynlluniau Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth a dogfennau'r strategaeth sydd ar y gweill eu seilio arni. Mae'n hanfodol bod pob adran ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod cyfraniad sgiliau sy'n gysylltiedig â chyfleoedd cyflogaeth at ddyfodol yr economi yng Nghymru.

- Yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw cyfraniad **Llyfrgelloedd, Archifdai a Gwasanaethau Gwybodaeth** at yr agenda economaidd drwy ymgysylltu â *'dysgwyr nad yw mathau eraill o ddysgu yn eu cyrraedd'* wedi cael ei gydnabod yn briodol o fewn polisïau'r Sector Dysgu Gydol Oes. Er gwaethaf lobio, siom oedd sylwi nad oedd eu rôl wedi ei chynnwys yn argymhellion Adolygiad Webb. Pan holwyd Webb am y diffyg hwn, dwedodd eu bod yn syml wedi anghofio. Yn unol ag adolygiad Beecham, mae angen i rôl LlAGG yn y Sector Dysgu Gydol Oes gael ei nodi a'i chydnabod a'i gwerthfawrogi, gan wneud y cysylltiadau o fewn y strategaeth hon ac ar lefel strategol rhwng agendâu Dysgu Cymunedol i Oedolion a LlAGG, a thrwy hynny AADGOS a CyMAL, yr Adran Dreftadaeth. Mae LLUK yn argymell bod angen i leoliadau Llyfrgell gael eu hystyried fel canolfannau Dysgu Cymunedol/Dibynnol a bod angen proffilio a threfnu offer ar gyfer adeiladau, adnoddau, a'r personél fel y cyfryw er mwyn sicrhau nad yw'r adnodd

gwerthfawr hwn yn parhau i gael ei esgeuluso. Mae Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr wedi cyflwyno ymateb cynhwysfawr sy'n cynnig trosolwg rhagorol o sut gallai Llyfrgelloedd fod yn rhan o gefnogi'r strategaeth hon yn y dyfodol - hoffem gefnogi a chadarnhau eu hymateb nhw.

- **Pobl Ifanc -** Mae LLUK yn cefnogi barn CWVYS/Prif Swyddogion Ieuenctid nad yw gwerth (i gyflogwyr) gweithio gyda phobl ifanc mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn cael ei gydnabod yn llawn yn y ddogfen ymgynghori ac nad yw'n cyfeirio at fentrau sy'n cael eu cynnal i sicrhau bod cyfraniad y Gwasanaeth Ieuenctid at ddatblygiad pellach yr agenda sgiliau. Mae LLUK yn cefnogi pwysigrwydd ceisio datblygu strategaeth NEET er mwyn ymgysylltu â Phobl Ifanc. Yn ein hymateb i **Tuag at Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol i Gymru** tynnom sylw at y ffaith nad ydy grant o £470,000 i gefnogi hyfforddiant a datblygiad gweithwyr Ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn ddigonol ar sail amcangyfrifon bod 3669 o aelodau staff yn cael eu cyflogi yn y gwasanaeth Ieuenctid statudol. O'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws y gweithlu statudol yn unig mae hyn yn gyfartal â £128 y flwyddyn y person. Yn erbyn cefndir niferoedd isel o staff â chymwysterau llawn, a'r disgwyliadau am gymwysterau ar lefel gradd o 2010 ymlaen, credwn fod y lefel hon o arian yn annigonol, yn enwedig wrth ystyried maint ychwanegol y Gwasanaeth Ieuenctid gwirfoddol. Ein hawgrym ni, wrth ystyried agenda 'Creu'r Cysylltiadau: Gwasanaethau Gwell i Gymru (LlCC Hydref 2004)', yw bod yr adran gwasanaeth ieuenctid yn negodi cymorth arian buddsoddi / ataliol gan adrannau eraill o fewn Llywodraeth y Cynulliad (Iechyd, Cyfiawnder, Menter, Arloesi a Rhwydweithiau) i gefnogi'r buddsoddiad angenrheidiol yn staff y Gwasanaeth Ieuenctid sy'n cyflwyno'r agenda gefnogi ac agendâu cydategol.

- **Addysg Uwch -** er bod LLUK yn cydnabod bod ystyriaethau difrifol i ymdrin â nhw yn nhermau sgiliau sylfaenol sgiliau lefel is - mae'r achos dros sgiliau lefel uwch wedi cael ei osod yn effeithiol gan yr Arglwydd Leitch. Mae angen gweld y Sector Dysgu Gydol Oes fel system gyflawn â'r nod yn y pen draw o sicrhau dilyniant i sgiliau lefel uwch. Mae LLUK yn poeni nad yw'r strategaeth sgiliau yn cydnabod yn effeithiol rôl bwysig AU, a byddai'n cadarnhau'r ymateb a gynigiwyd gan Addysg Uwch Cymru i'r Strategaeth.
- **Y Sector Gwirfoddol –** Mae'r ddogfen ymgynghori yn canolbwyntio yn ôl pob golwg ar gyfraniad sgiliau at gyfer cyflogaeth (ac er nad yw'n dweud yn benodol, mae hynny'n golygu cyflogaeth am dâl) ac mae'n ymddangos nad yw'n cydnabod yn llawn cyfraniad gwirfoddoli fel ffurf waith, yr hyfforddiant sy'n sylfaen i wirfoddoli ansawdd dda, a'r canlyniadau yn nhermau'r unigolion a'r cymunedau maent yn gweithio ar eu rhan.
- Fel llais cyflogwyr yn y Sector Dysgu Gydol Oes, mae LLUK yn dal i **gefnogi Adolygiad Webb yn gryf iawn**.

C2. Pa gamau ddylai gael blaenoriaeth er mwyn i ni gyflawni yn unol ô'n huchelgeisiau ar gyfer sgiliau a chyflogaeth?

- Mae'r Crynodeb Gweithredol yn cyfeirio at yr angen i '*gynnwys pobl ifanc yn fwy effeithiol mewn dysgu drwy gynnig iddynt ddewis ehangach o opsiynau o ran beth a sut maent yn ei astudio wrth iddynt symud drwy eu haddysg'*, ond nid yw'n mynd mor bell â siarad am y sgiliau y bydd eu hangen ar weithlu'r 'system' hon. Mae LLUK yn argymell yn gryf bod angen i bob adran ledled LlCC **gydnabod y Sector Dysgu Gydol Oes ôl-orfodol fel *sector sy'n flaenoriaeth*** y mae ganddo rôl hanfodol mewn **cefnogi datblygiad sgiliau ym mhob sector arall o'r economi.**

- Mae LLUK yn pwyso ar LlCC i gymhwyso'r egwyddorion mae'n eu hargymell i gyflogwyr eraill '*A more highly skilled workforce is a route for employers to achieve higher productivity*'[1]a **chydnabod bod buddsoddi** yn natblygiad **sgiliau Gweithlu'r Sector Dysgu Gydol Oes** o'r

[1] Tudalen 7 Paragraff 1.9 Troednodyn 8 Dearden, L., Reed, H. a Van Reened, J. (2000) Who Gains when Workers train? Training and Corporate Productivity in a Panel of British Industries, IFS Working Paper No. 00/04

radd flaenaf yn hanfodol i lwyddiant cyflwyno'r Strategaeth.

- Nid yw'r **dyheadau targed** am Gymru hyddysg, sgiliedig â chyflogaeth uchel **mor ymestynnol** â'r rhai y mae'r Arglwydd **Leitch** wedi awgrymu y dylai'r DU ymdrechu i'w cyrraedd. Mae LLUK yn nodi, ers cyhoeddiad adolygiad Leitch yn 2006, fod sefyllfa'r DU yn erbyn economïau BRIC eisoes wedi symud yn anffafriol. Rydym yn cefnogi'n llawn yr angen i'r targedau hyn gael eu hadolygu yn unol â'r argymhellion a wnaed gan yr Arglwydd Leitch, gan y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau yng Nghymru fel blaenoriaeth cyn gynted ag y caiff ei ffurfio'n llawn.

- Mae'r broses ymgynghori ar gyfer **Cytundeb Sgiliau'r** Sector Dysgu Gydol Oes i Gymru wedi ennyn trafodaeth helaeth ar draws pob etholaeth y sector ac yn nodi'r angen am Agenda Datblygu'r Gweithlu yr un mor uchelgeisiol sy'n amlygu'r angen brys am:
    - Diffiniad o **safle proffesiynol** sy'n cael ei gytuno
    - Diffiniadau o ddatblygiad parhaus a phroffesiynol (**DPPh**),
    - Fframwaith **sgiliau/cymwysterau**
    - Mwy o **gydweithrediad**
    - Diwylliant **sy'n cael ei arwain gan y galw/â ffocws ar ddysgwyr**
    - Rhaglenni **Recriwtio** a gefnogir gan wybodaeth, cyngor ac arweiniad priodol
    - Sgiliau **Rheoli ac Arwain**
    - Gofynion **ICT** ac **ILT**.

  Mae gweithredu yn yr holl feysydd hyn yn hanfodol er mwyn i rolau o fewn y Sector Dysgu Gydol Oes (ar bob lefel) gael eu gweld fel **gyrfa sy'n ennyn parch a gwerthfawrogiad**, ac i'r Sector feddu ar yr **adnoddau i gyflawni** dyheadau'r Strategaeth.

- **Cyflwyno Dysgu Cymwysterau Galwedigaethol** - mae Syr Adrian Webb wedi ein hannog i ymdrin â phryderon nad oes gan athrawon ym maes AB wybodaeth gyfredol bob tro, yn enwedig mewn pynciau galwedigaethol. Rhaid i bynciau galwedigaethol gael eu haddysgu gan arbenigwyr galwedigaethol sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol rheolaidd ac ymdrochi'n drylwyr yn eu harbenigedd. Dylai hyn arwain at sefydlu **isafswm hawl i DPP i staff addysgu a staff darlithio** mewn *ysgolion* a sefydliadau addysg bellach a ddylai fod o leiaf 10 niwrnod y flwyddyn ac a ddylai gynnwys y cyfle i staff sy'n addysgu ar raglenni cysylltiedig â gwaith gael cyfnod o ymdrochi yn yr amgylchedd gwaith priodol. Mae LLUK yn cefnogi'r angen i ymgynghori â'r sector i ddatblygu a chytuno ar ddiffiniad a fframwaith derbyniol ar gyfer DPP ar draws pob lleoliad.

- **Adduned Sgiliau Sylfaenol -** mae codiad o 40% yn y cyflogwyr sy'n cofrestru ar gyfer yr Adduned Cyflogwyr Sgiliau Sylfaenol erbyn 2010 yn her a bydd angen cefnogaeth gan lawer mwy o Ymarferwyr Sgiliau Sylfaenol. Mae Webb wedi tanlinellu pryderon am allu'r gweithlu ymyrraeth Sgiliau Sylfaenol presennol ac yn awgrymu angen i sicrhau bod gweithlu ymyrraeth Sgiliau Sylfaenol yn cael ei ddatblygu a'i recriwtio. Rhaid i'r tiwtoriaid hyn beidio â chael eu hymylu gan eu telerau ac amodau. Mae'r mater hwn wedi cael ei gefnogi ymhellach yn ymateb NTFW. Rhaid mynd i'r afael â'r mater adnoddau hwn.

- Pynciau **STEM** – mae Webb yn argymell yr angen i gryfhau addysgu STEM arbenigol – rydym yn wynebu twf yn y galw am sgiliau lefel uchel. Mae LLUK yn cefnogi hyn.

- **ESOL –** Mae Webb wedi cadarnhau'r angen i ymdrin â'r prinderau tiwtoriaid ESOL â'r cymwysterau addas ar frys. Mae LLUK yn cefnogi hyn.

- **Gweithlu sy'n Heneiddio** – Mae LLUK yn croesawu cydnabod demograffeg y gweithlu yng Nghymru, ond yn credu bod dim ond dau baragraff ar y pwnc hwn yn y strategaeth braidd yn **anghymesur â'r heriau** mae'r mater hwn yn eu cyflwyno. Yn ogystal hoffem bwysleisio bod proffil oedran cyfartalog gweithwyr yn y **gweithlu Dysgu Gydol Oes ar hyn o bryd yn sylweddol uwch** nag mewn Sectorau eraill yng Nghymru. O gofio'r cynnydd sylweddol rydym wedi ei weld ym meysydd **ICT** ac **ILT** yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf, sydd wedi gyrru newidiadau mawr yn y dulliau y gall dysgu gael ei gyflwyno – bydd yn hanfodol **rhoi blaenoriaeth i gefnogaeth datblygu'r gweithlu i'r sector** gan ddiweddaru sgiliau darfodedig

staff i sbarduno'r arloesi a'r cynhyrchedd bydd eu hangen ar gyfer diwygio'r Sector Dysgu Gydol Oes yn y dyfodol.

- Mae **model prentisiaethau** cryf yn dibynnu ar gyflwyniad cryf Dysgu Seiliedig ar Waith ac Asesu a Gwirio. Mae Cytundeb Sgiliau Sector LLUK wedi pwysleisio bod prinder cyffredinol o Aseswyr a Gwirwyr cymwys, a bod bylchau'n fwy amlwg mewn rhai ardaloedd. Bydd angen ymgyrch recriwtio frys ar gyfer Aseswyr a Gwirwyr Dysgu Seiliedig ar Waith i gefnogi unrhyw godiad arfaethedig yng nghyflwyniad Prentisiaethau Modern, fel y bydd archwiliad o staff cyflwyno (o ran eu nifer a gofynion i ddiweddaru eu gwybodaeth alwedigaethol (DPPh)).
- Lle bydd **cymhellion polisi yn golygu newidiadau** yng ngwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau ymarferwyr neu fwy o ymarferwyr i'w cyflwyno (e.e. sgiliau sylfaenol, sectorau sy'n bwysig yn economaidd, rôl Hyfforddwr Dysgu, yr iaith Gymraeg, addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang) byddem yn croesawu gweithio gydag AADGOS i sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael eu recriwtio a/neu eu datblygu i weithredu'r polisïau'n effeithiol. Yn arbennig, lle bydd arian yn cael ei dargedu'n benodol at ddatblygu lleoedd hyfforddiant (fel yn yr Asesiad Dysgu a Sgiliau Blynyddol diweddar 06-09 lle rhoddwyd blaenoriaeth i 40,000 o leoedd ar raglen ITQ E-Sgiliau) dylai fod cyfrifiad cyfatebol i bennu'r codiad yn nifer yr ymarferwyr mae eu hangen i gyflwyno'r agenda.
- Er bod LLUK yn cydnabod gofynion angenrheidiol a statudol cefnogi datblygiad athrawon yn y sector statudol (ysgolion), mae pryder difrifol gennym o hyd am y diffyg arian mae AADGOS yn gallu ei ddyrannu tuag at lefelau teg o ddatblygiad cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon a staff cynorthwyol yn y sector ôl-orfodol sy'n cyflwyno addysg ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, gan fodloni anghenion amrywiol y grŵp hwn o ddysgwyr. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater y mae angen i gabinet LlCC fod yn berchen arno hefyd o ran maint y gyllideb sy'n cael ei dyrannu i AADGOS. Rydym yn ystyried y mater hwn yn **risg difrifol** i gyflwyniad effeithiol y Strategaeth.
- **Cynghorau Sgiliau Sector** – ynghyd â'r pwyntiau rydym wedi eu tanlinellu mewn ymateb i gwestiwn 5 hoffem bwysleisio'r rôl ganolog sydd gan Gynghorau Sgiliau Sector wrth gyflwyno'r strategaeth hon. Rydym yn cefnogi'r ymateb sydd eisoes wedi ei wneud ar ran pob CSS gan y Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Business (SfBN) sy'n sôn am yr angen i gynyddu'r cyllid craidd a chynaliadwy sy'n cael ei ddyrannu i CSSau yng Nghymru

C3. Ydy'r strategaeth yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion a chyfrifoldebau unigolion, busnesau, a chymunedau?

- Mae LLUK yn cefnogi diffiniad LlCC o amgylchedd sy'n cael ei arwain gan y galw sy'n ymgorffori anghenion Cyflogwyr; Cymunedau; Unigolion a Buddsoddwyr Allanol. Mewn strategaeth sgiliau a chyflogaeth byddem yn gwerthfawrogi bod anghenion cyflogwyr yn debygol o gymryd blaenoriaeth. Yn nhermau paratoi pobl am waith, yn enwedig y sawl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd, a'r heriau demograffeg penodol mae Cymru yn eu hwynebu, byddai LLUK yn argymell yr ymateb NIACE Dysgu Cymru wedi ei gyflwyno i'r cwestiwn hwn.

- Yn ysbryd cydweithrediad ehangach ar draws LlCC, dylai AADGOS ystyried datblygiad posibl strategaeth 'Sgiliau ar gyfer Cymunedau' mewn partneriaeth debyg â changen Cymunedau'n Gyntaf/Nesaf o'r adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

C4. Beth ydy'ch barn ar ein polisi cyfraniadau ariannol arfaethedig? Yn benodol:

a) Ydy'ch chi'n cytuno â'r achos dros newid?

Mae LLUK yn cefnogi'r achos dros newid, ond yn unol â'r ymatebion a gyflwynwyd gan gyrff partner, rydym o'r farn bod y manylion yn hollbwysig. Rydym yn argymell yn gryf y dylai arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio mewn dulliau sy'n denu arian arall - rhaid peidio ag anwybyddu gallu buddsoddiad yng ngweithlu'r Sector Dysgu Gydol Oes i ganiatáu iddo uwchraddio ansawdd y ddarpariaeth ddysgu yn gyson, a thrwy hynny gyfrannu ar gynyddu'r angen am ddysgu.

- Er mwyn i bolisi cyfraniadau ariannol fod yn gwbl effeithiol, rhaid i'r cwsmer (y person sy'n prynu'r dysgu) a'r defnyddiwr (y dysgwr) gael eu cyhoeddi o'i werth. Mae gweithrediad effeithiol polisi cyfraniadau ariannol felly'n dibynnu ar y ffaith bod gan Gynghorau Sgiliau Sector adnoddau digonol yng Nghymru i sicrhau bod y Strategaethau Cymwysterau Sector yn gallu adlewyrchu gofynion Cymru yn llawn.

- **Hawl Dysgwyr:** Mae LLUK yn cynnig y dylai fod gan Ddysgwyr hawl i gael mynediad i Athrawon, Tiwtoriaid a Hyfforddwyr â'r cymwysterau a chefnogaeth briodol (DPPh) ym mha gyd-destun bynnag y mae dysgu'n cael ei gyflwyno. Dylai'r cynnig ar gyfer y polisi cyfraniadau ystyried hyn yn nhermau amddiffyn gwerth am arian.

- Bydd angen i ddatblygiad **polisi cyfraniadau** gael ei gefnogi gan raglen datblygu'r gweithlu (Cytundeb Sgiliau Sector LLUK elfen 5 – Cael ei Arwain gan y Galw).

- Byddai eglurhad pellach ar sut mae'r polisi cyfraniadau yn effeithio ar gyflogwyr y Sector Dysgu Gydol Oes yn cael ei groesawu. Dylai'r rheol ariannu dwbl y sector cyhoeddus, nad yw'n bodoli yn Lloegr, gael ei hadolygu a'i dileu yng Nghymru.

b) Ydy'ch chi'n cytuno y dylai arian cyhoeddus ganolbwyntio ar sicrhau bod gan bawb y platfform sylfaenol o sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth a chyfranogiad mewn bywyd cymunedol?

- Mae LLUK yn cytuno â'r datganiad hwn, er byddai'n pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng sgiliau a chymwysterau, ac yn bryderus bod yr ymadroddion hyn weithiau'n cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, fel yr oeddent yn adolygiad Leitch.

C5. Ydy'r cynigion yn mynd yn ddigon pell wrth roi i gyflogwyr, fel cwsmeriaid y system sgiliau, dylanwad dros gynnwys rhaglenni sgiliau sy'n cael eu cyflwyno? (Pennod 3)

- Mae LLUK yn croesawu'r rôl a nodwyd ar gyfer CSSau fel llais Cyflogwyr yn y system sgiliau.

- Mae LLUK yn awyddus i allu manteisio ar **wybodaeth 'gywir ac awdurdodol' am y farchnad lafur** a niferoedd y galw am ddysgu o'r sectorau sy'n cael eu cynrychioli gan y 24 Cyngor Sgiliau Sector arall, ar ran y sector Dysgu Gydol Oes. Er mwyn i'r disgwyliad hwn ar CSSau eraill fod yn un rhesymol - mae'n hanfodol bod y Sector Dysgu Gydol Oes yn sicrhau bod ganddo ef drefn ar bopeth, a'i fod mewn sefyllfa i bennu ei alwadau ei hun ar sail yr un safonau data 'cywir ac awdurdodol' y byddai'n eu disgwyl/eu hangen gan sectorau eraill yr economi. Byddai LLUK yn croesawu adolygiad strategol o sut gallai'r Sector Dysgu Gydol Oes gyflawni hyn mewn partneriaeth â'r holl brif randdeiliaid, wrth gydnabod bod rôl arweiniol LLUK ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur, fel y'i pennwyd yn y strategaeth, yn cael ei chydnabod a'i chefnogi gan bob rhan o Lywodraeth y Cynulliad.

- Cred LLUK y dylai datblygu, hyrwyddo a defnyddio **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** fod yn rhan gynhenid o ddatblygu modelau a beincnodi effeithiolrwydd y Sector Dysgu Gydol Oes yn y dyfodol.

- **Rhesymoli Cymwysterau Galwedigaethol**. Mae LLUK yn cefnogi'r angen i resymoli ac archwilio nifer y cymwysterau galwedigaethol a'r rhai sy'n gysylltiedig â galwedigaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i bob Sector. Yn unol â'r datganiadau am rôl Cynghorau Sgiliau Sector perthynas â **Chytundebau Sgiliau Sector** a **Strategaethau Cymwysterau Sector**, hoffai LLUK gael sicrhad gan AADGOS y bydd LLUK yn derbyn yr un parch â phob CSS arall o ran bod y corff arweiniol ar gyfer ein sector.

- **Gwaith cydweithredol CSSau** - Mae LLUK yn cefnogi'n llwyr yr angen i weithio mewn partneriaeth â CSSau eraill lle nad yw'n holion troed diwydiannol yn alinio'n uniongyrchol. Enghraifft dda o hyn yw'r Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Er hynny, byddai LLUK yn annog AADGOS i gydnabod nad yw gwaith partneriaeth yn y cyd-destun hwn yn

niwtral o ran adnoddau, ac mae angen rhoi cefnogaeth briodol i adeiladu gallu i gyflwyno'r agenda hon.

C6. Mae'r ddogfen hon yn nodi llawer o gynigion penodol. Byddem yn croesawu sylwadau ar bob un o'r rhain ac yn benodol hoffem wybod a ydych yn cefnogi'n cynigion yn y meysydd dilynol:

a) Cydnabod a gwobrwyo darpariaeth ragorol

- Mae LLUK yn cefnogi'r dyheadau y soniwyd amdanynt sef lledaenu **arfer gorau** ar draws pob agwedd ar y Sector Dysgu Gydol Oes yng Nghymru a galluogi Cymru i ddysgu oddi wrth/ rhannu enghreifftiau o fewn cyd-destun ehangach y DU. Cred LLUK fod ganddynt rôl bwysig yn hyn o beth.

b) Ffocws ar sectorau a busnesau sy'n flaenoriaeth yn ein rhaglen datblygu'r gweithlu (3.7)

- Fel y nodwyd uchod, rhybuddiodd adolygiad annibynnol yr Arglwydd Leitch o sgiliau a gyhoeddwyd Rhagfyr 2006 fod rhaid i'r DU wella rhychwant ei sgiliau ar bob lefel er mwyn cynnal a gwella ei sefyllfa yn yr economi fyd-eang ac ymgyrraedd at gyflawni sgiliau o safon orau'r byd erbyn 2020. Er mwyn cyflawni hyn rhaid bod gan Gymru *system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol lwyddiannus.* Mae'r achos economaidd o blaid dyfarnu'r Sector Dysgu Gydol Oes yn sector blaenoriaeth wedi ei osod yn glir iawn. Rhaid i LlCC roi i'r sector gydnabyddiaeth ddyledus o ran hyn.

c) Cyfeirio mwy o'r adnoddau presennol i mewn i Raglen ddewisol Datblygu'r Gweithlu a Chronfa Blaenoriaethau Sector newydd

- Mae Adolygiad Webb wedi amlygu natur annefnyddiol trefniadau ariannu 'jar jam' ar gyfer rhanddeiliaid. Byddai LLUK yn annog y dylai datblygiad meini prawf i'r **Gronfa Blaenoriaethau Sector** gymryd hyn i ystyriaeth ac ystyried rhoi cyllid isadeiledd i ganiatáu i CSSau ddatblygu gallu a chynhwysedd hirdymor.

d) Annog cysylltiadau cryfach rhwng cyflogwyr, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch

- Mae FFORWM ac Addysg Uwch Cymru ill dau wedi cadarnhau bod gan SABau ac SAUau gysylltiadau cryf â chyflogwyr eisoes, ac â Chynghorau Sgiliau Sector.

- Mae Cyngor y DU LLUK wedi nodi'r angen i LLUK fanteisio'n llawn ar ei sefyllfa unigryw o fewn yr SfBN i gefnogi datblygiadau parhaus dialog rhwng SABau ac SAUau, CSSau a Chyflogwyr.

- Gallai datblygiad pellach a pharhaus prosiect ***Adolygiad Effaith*** LLUK, a oedd yn gydran ychwanegol o Gytundeb Sgiliau Sector LLUK, fod yn ddull allweddol i gefnogi hyn, gan ymgymryd ag ef i gydnabod sefyllfa unigryw LLUK o fewn y rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes. Fel yr CSS sy'n cynrychioli'r gweithlu ym meysydd AB, AU, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol, yn ogystal â llyfrgelloedd ac archifdai, cyflogwyr LLUK yw'r darparwyr sy'n ymwneud â rhoi blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Cytundeb ar waith a nodwyd gan gyflogwyr ym mhob sector arall. Mae'r blaenoriaethau a'r camau hyn yn cael eu dal yn y Cytundebau sydd wedi eu datblygu gan y 24 o CSSau eraill yn ystod y cyfnod rhwng 2005 a 2008. Cynhwysodd yr Adolygiad Effaith amrediad o weithgareddau. Y brif dasg oedd dadansoddi'r themâu allweddol sy'n effeithio ar y gweithlu Dysgu Gydol Oes fel y'u cyflwynwyd yn y cyfoeth o ddeunydd ar gyfer y Cytundeb a gynhyrchwyd erbyn Gwanwyn 2007, a chynhyrchu adroddiad sy'n cynrychioli'r dadansoddiad. Wrth gloriannu'r Adolygiad Effaith, adroddodd GHK fod '**Y rhesymeg dros yr Adolygiad Effaith wedi cael ei chydategu yn ystod y broses (h.y. mae'n amlwg y gall LLUK ychwanegu gwerth fel brocer)'.**

- Er mwyn cynrychioli llais y Sector Dysgu Gydol Oes sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr yn effeithiol – rhaid i LLUK gefnogi'r farn y dylai Graddau Sylfaen ddod yn gymhwyster a gefnogir yng Nghymru. Mae cyflogwyr o fewn ein hôl troed ni yn gweld y cymwysterau hyn fel dyfarniadau dilyniant pwysig ar lwybr tuag at statws proffesiynol mewn rhai o'r etholaethau rydym yn eu cynrychioli. Mae LLUK felly yn croesawu datganiadau'r Dirprwy Weinidog ar y mater.

e) sefydlu gwasanaeth sgiliau a chyflogaeth integredig ar sail model bwaol yr 'Ysgol Yrfaoedd'

- Rydym yn croesawu'r cynnig am wasanaeth integredig a'r model Ysgol Yrfaoedd.

f) adolygu'r model gweithredu i Gyrfa Cymru

- Rydym yn croesawu'r cynnig am un corff Gyrfaoedd unigol sy'n rhan o'r Cynulliad.
- Mae'r strategaeth yn cyfeirio at rôl **Gyrfa Cymru** mewn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad clir i bobl am sgiliau, cymwysterau a dewisiadau gyrfa. Gan nad yw materion Gyrfaoedd i'w gweld yn rhan o'r agenda â ffocws newydd ar gyfer Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru – **sut caiff CSSau eu cefnogi** i'w galluogi i **gefnogi Gyrfa Cymru?**

g) Addasu ffocws Skillbuild a Chyfrifon Dysgu Unigol

-

h) cyllido a chefnogi sgiliau sylfaenol

- Mae LLUK yn cefnogi'r cynigion am hawl i ddarpariaeth sgiliau sylfaenol am ddim, ac yn unol â sylwadau cynharach yn croesawu'r buddsoddiad yn DPP i athrawon/tiwtoriaid sy'n cyflwyno Sgiliau Sylfaenol. Fel rhan o adolygu'r Safonau Proffesiynol newydd i Athrawon, Tiwtoriaid a Hyfforddwyr yn y Sector Dysgu Gydol Oes yng Nghymru, mae LLUK yn gweithio gyda LlCC i ddatblygu canllawiau cymhwyso er mwyn i ymarferwyr Sgiliau Sylfaenol /Sgiliau Allweddol gysylltu'r arfer proffesiynol gorau â safonau bwaol ITTTE. Byddem yn argymell bod rhaglenni DPP newydd yn cael eu seilio ar y gwaith hwn.

i) nodi a thargedu grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf

-

j) cefnogi dysgu yn y gymuned drwy ddiwygio Dysgu Oedolion yn y Gymuned

- Yn y ddogfen soniwyd yn benodol am Ddysgu Oedolion yn y Gymuned. Fodd bynnag, mae elfennau eraill o ddarpariaeth dysgu a datblygu cymunedol sy'n effeithio ar yr agendâu sgiliau yn y gymuned sydd heb gael sylw. Mae diffiniad LLUK o'r 7 elfen sy'n rhan o Ddysgu a Datblygu Cymunedol i'w weld yn Atodiad 1.

- **Dysgu Cymunedol i Oedolion –** Fel y nodwyd ynghynt, mae angen cofnodi cyfraniad cudd presennol **Llyfrgelloedd, Archifdai a Gwasanaethau Gwybodaeth** at yr agenda economaidd drwy ymgysylltu â *'dysgwyr nad yw mathau eraill o ddysgu yn eu cyrraedd'* a'i gydnabod o fewn yr adolygiad arfaethedig o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned. Cyfeiriwch at y sylwadau cynharach a'r ymateb a luniwyd gan Gymdeithas y Prif Lyfrgellwyr yng Nghymru.

C7. Beth ydy'r mesurau llwyddiant pwysicaf?

- Fel yr awgrymwyd ynghynt, credwn fod y dilyniant amserol tuag at a chyflawniad y targedau a osodwyd gan yr Arglwydd Leitch ar gyfer y DU yn feincnod hynod bwysig. Gan gydnabod bod economïau eraill yn y byd eisoes yn gwneud cynnydd cyflym, mae angen gweld y targedau hyn

fel lefel gyrhaeddiad ofynnol, ac mewn amgylchedd newidiol dylem fod wrthi'n cynllunio i gymryd i ystyriaeth pyst gôl sy'n symud rhwng nawr a 2020.

- Cyflawni graddau ESTYN o safbwynt ansawdd
- Boddhad Cwsmeriaid a Defnyddwyr a lefelau busnes ailadroddus.

Atodiad 1 – Ôl troed Dysgu a Datblygu Cymunedol

Mae **dysgu oedolion yn y gymuned** yn cynnwys pob person ifanc ac oedolyn ac yn digwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'n chwarae rôl fawr mewn adeiladu cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi adfywiad sifil. Gall y rhai a gyflogir yn y maes hwn weithio wyneb i wyneb, ac mae eu rôl yn cynnwys arwain dysgu drwy addysgu neu diwtora, cefnogi dysgu drwy diwtora, darparu arweiniad a hwyluso dysgu.

Mae **gwaith datblygu cymunedol** yn rhagdybio bod cyfoeth o wybodaeth a phrofiad o fewn unrhyw gymuned sydd, o'u defnyddio'n greadigol, yn arwain at lefelau o gyfranogiad ac yn gallu cael eu sianelu i mewn i weithgarwch cyfunol i gyflawni dyheadau'r gymuned. Mae gweithwyr datblygu cymunedol yn gweithio ochr yn ochr â phobl mewn cymunedau i feithrin cysylltiadau â phobl a grwpiau allweddol, hwyluso nodi pryderon cyffredin a helpu i greu grwpiau ymreolaethol. Drwy alluogi pobl i weithredu gyda'i gilydd, mae gweithwyr datblygu cymunedol yn helpu i feithrin cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb.

Mae **addysg gymunedol** yn ymgorffori'r ystod o anghenion dysgu gydol oes gydag ymagwedd gyffredin rhwng gwaith gydag oedolion, pobl ifanc a phlant, a darparu cymorth addysgol gyda datblygiad cymunedol. Mae ei phwyslais ar ddarparu cymorth dysgu a datblygu cymunedol i unigolion a grwpiau ar sail anghenion ac ystyriaethau sydd wedi eu nodi.

Gall **addysg ddatblygu** gael ei diffinio fel Dysgu Gydol Oes sydd: yn caniatáu i bobl ddeall y cysylltiadau rhwng eu bywydau eu hun a bywydau pobl ledled y byd; yn cynyddu dealltwriaeth o'r grymoedd economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol sy'n siapio ein bywydau; yn datblygu'r sgiliau, agweddau a gwerthoedd sy'n galluogi i bobl i gydweithio wrth gymryd camau i greu newid a chymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hun; yn gweithio tuag at gyflawni byd tecach a mwy cynaliadwy lle bydd grym ac adnoddau'n cael eu rhannu'n decach.

Mae **dysgu teuluol** yn y bôn yn ddysgu sy'n digwydd mewn cyd-destun 'aml-genhedlaeth'. Mae'r gwerthoedd, agweddau a diwylliant rydym yn eu dysgu gan ein teuluoedd yn gallu aros gyda ni drwy gydol ein bywydau. Mae cynlluniau dysgu teuluol yn aml yn ail gyfle i rieni, a mam-gu a thad-cu, ddychwelyd i ddysgu. Mae dysgu teuluol yn cwmpasu llythrennedd teuluol, rhifedd teuluol, TG teuluol, dosbarthiadau a gweithgareddau i deuluoedd, cyrsiau mewn magu plant fel byw gyda phlant yn eu harddegau, chwarae gyda'ch plentyn, helpu plant i ddysgu, delio ag ysgol eich plentyn, a deall am gyffuriau.

Mae **addysg magu plant** yn ymagwedd addysgol gydweithredol sy'n defnyddio cyfuniad o wybodaeth, sgiliau dysgu a magu cymorth cymheiriaid a rhwydweithiau i alluogi rhieni i ddeall eu plant a'u hanghenion yn well a theimlo'n fwy hyderus a chymwys fel rhieni. Mae'n ymagwedd sy'n berthnasol i bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant ac fe all chwarae rhan werthfawr mewn cynyddu'r berthynas a sgiliau a dealltwriaeth pob un ohonom. Mae cymhlethdod y sgiliau mae eu hangen ar y rhai sy'n gweithio gyda rhieni ar ba ffurf bynnag yn amlwg, nid lleiaf wrth ystyried cyfrifoldeb mawr gwneud gwaith a fydd yn cael effaith aruthrol ar fywydau pobl.

Mae **gwaith ieuenctid** yn cynnig i bobl ifanc raglenni addysg bersonol a chymdeithasol cynlluniedig a digymell fel ei gilydd. Fel rhan o agenda ehangach gwaith ieuenctid 14 – 19 mae'n paratoi pobl ifanc am fywyd. Mae amrywiaeth eang o ymarfer i fodloni anghenion pobl ifanc gan gynnwys grwpiau celfyddydau a drama, cynghori, gwaith ieuenctid ar wahân neu ar y stryd, grwpiau ffydd, canolfannau gwybodaeth a chyngor, gwaith allgymorth gyda grwpiau anfanteisiol, gwaith prosiect ar faterion iechyd, darpariaeth ar sail ysgolion a cholegau, grwpiau mewn lifrai (Sgowtiaid a Guides, Unedau Cadetiaid ac ati), a grwpiau gwasanaeth gwirfoddol. Hanfod gwaith ieuenctid yw galluogi'r pontio o blentyndod i fywyd annibynnol fel oedolyn. Gan hynny mae darparu gwaith ieuenctid yn rhwydwaith cymhleth o ddarparwyr o grwpiau cymunedol drwy ddarpariaeth awdurdodau lleol i gyrff gwirfoddol.

Atodiad 2 - Aelodaeth Paneli a Grwpiau Ymgynghorol LLUK dros Gymru

Panel Gwlad Cymru LLUK

Veronica Wilson	Prif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Darrel Williams	Rheolwr Strategol – Gwaith Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Rob Humphreys	Cyfarwyddwr Cymru Y Brifysgol Agored
Richard Spear	Cyfarwyddwr Cymru NIACE
Denise Lavis	Cynghorydd Hyfforddiant a Datblygiad Cymal: Llywodraeth Cynulliad Cymru
Alan Watkin	Prif Swyddog, Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Wrecsam
Dr John Graystone	Prif Weithredwr Fforwm
Jackie Doodson	Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio a Safonau Coleg Llandrillo
Bryn Davies	Prifathro Coleg Ystrad Mynach
Helen James	Cyfarwyddwr Strategaeth Datblygu Addysg Uwch ac Addysg Bellach Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru
Terry Jones	Rheolwr Gyfarwyddwr Hyfforddiant y Gogledd-Orllewin
Sian Cartwright	Pennaeth Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru
David Hunter	Prif Weithredwr Dysgu Gydol Oes yn y DU
Michelle Sayers	Rheolwr Cenedlaethol Cymru Dysgu Gydol Oes yn y DU
Karen Jones	Cynghorydd Polisi Addysg Uwch Cymru
Bridget Moseley	Rheolwr Hyfforddiant Coleg Sir Gâr
Susan Edwards	Archifydd Morgannwg

Grŵp Ymgynghorol Dysgu a Datblygu Cymunedol Cymru

Veronica Wilson	Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
Jim Barnaville	Datblygiad Cymunedol, Cymru
Graham Price	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
Lucy Aktar	Plant yng Nghymru
Dominic Miles	Cyfanfyd
Cerys Furlong	NIACE
Mike Hughes	Dinas a Sir Abertawe
Alice Greenlees	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru